



Tribiwnlys Addysg Cymru

Canllawiau hawlio

Ynglŷn â'r canllaw hwn

Nod y canllaw hwn yw eich helpu drwy'r broses hawlio gyda Thriwlynys Addysg Cymru (y Tribiwnlys). Mae'n disgrifio pob un o'r camau yn y broses, a pha gymorth sydd ar gael. Mae'r canllaw hwn yn esbonio sut i wneud hawliad, ond ni all ddweud wrthy ch a oes gennych siawns dda o lwyddo.

Clercod tribiwnlysoedd yw'r staff sy'n prosesu achosion. Maent yn ateb eich llythyrau a'ch galwadau ffôn. Dim ond cwestiynau am weinyddu eich achos y mae modd iddynt eu hateb. Ni allant roi cyngor cyfreithiol. Mae hyn yn golygu na allant roi eu barn, nac argymell a ddylech gymryd camau penodol.

Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn ar gyfer unrhyw un sy'n gwneud hawliad i'r Tribiwnlys. Mae hyn yn cynnwys:

- plant a phobl ifanc dan 25 oed;
- rhieni plant o oedran ysgol gorfodol, ac iau;
- cyfeillion achos; a
- chynrychiolwyr eraill.

Mae'r canllaw hwn yn cyfeirio at ffurflen gais, y bydd angen i chi ei llenwi os ydych am wneud hawliad i'r tribiwnlys. Mae'r ffurflen ar gael ar ein gwefan, neu fel copi print ar gais.

Mae'r [Gofrestr Gyhoeddiadau](#) yn rhestr o'r holl ganllawiau a ffurflenni. Mae'r gofrestr ar gael ar ein gwefan.

Tribiwnlys Addysg Cymru

Mae'r Tribiwnlys yn clywed ac yn gwneud penderfyniadau ar apelïadau am anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion addysgol arbennig plant a phobl ifanc, yn ogystal â hawliadau o

wahaniaethu ar sail anabledd. Mae'r Tribiwnlys yn annibynnol ar y llywodraeth ac awdurdodau lleol, ac mae ein penderfyniadau'n rhwymo mewn cyfraith.

Dewis Iaith

Mae'r Tribiwnlys yn croesawu derbyn gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi cyn i ni ymateb.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. Cysylltwch â'r Tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon. Gallwch hefyd gyflwyno ffurflenni, dogfennau a sylwadau ysgrifenedig i'r Tribiwnlys yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Prif Amcan a Rhwymedigaeth i Gydweithredu

Prif fwriad y Tribiwnlys yw ymdrin ag achosion yn deg ac yn gyfiawn. Mae'r Tribiwnlys yn disgwyl i bob parti gydweithredu â'i gilydd, a'r Tribiwnlys, i symud yr achos yn ei blaen. Gall hyn gynnwys cyfnewid gwybodaeth a dogfennau gyda phartion eraill, neu gydweithio â cheisiadau'r Tribiwnlys yn fwy cyffredinol.

Adnoddau Gwybodaeth

- [Deddf Cydraddoldeb 2010](#)
- [Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021](#)
- [Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021](#)
- [Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018](#)
- [Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol \(Cymru\) 2021](#)

Cynnwys

1 Penderfynu a ddylid gwneud hawliad

- Beth yw hawliad?	4
- Pa agweddau ar addysg y mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ymdrin â nhw?	4
- Beth yw gwahaniaethu ar sail anabledd?	5
- Beth yw'r mathau o wahaniaethau?	5
- Pryd y gellir cyfiawnhau gwahaniaethu?	6
- Beth am y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol?	6
- A ellir gwahaniaethu yn erbyn plentyn heb anabledd?	6
- Pa hawliadau y gall y Tribiwnlys delio â nhw?	7
- Cael gwybodaeth am yr achos	7
- Beth arall allaf ei wneud?	7
- Pa gymorth a allaf ei gael?	8
- Beth all y Tribiwnlys ei wneud i unioni pethau?	8
- Faint o amser y mae'r cyfan yn ei gymryd?	9
- Oes rhaid i mi dalu unrhywbeth?	9

2 Gwneud hawliad

- Terfynau amser	10
- Pwy all wneud hawliad?	10
- Sut ydw i'n gwneud hawliad?	10
- Oes rhaid i mi anfon y cais hawlio fy hun?	11
- Yn erbyn pwy mae'r hawliad?	11
- Pa wybodaeth y mae angen i mi ei rhoi i chi?	12
- Pa ddogfennau y dylwn i eu hanfon gyda'r cais hawliad?	14
- Gwybodaeth arall	14

3 Ar ôl i ni dderbyn eich hawliad

- Beth sy'n digwydd nesaf?	15
- Beth yw ddatganiad achos?	15
- Oes rhaid i mi anfon datganiad achos?	15
- Beth fydd y corff cyfrifol yn ei wneud ynghylch fy apêl?	15
- Beth os nad yw'r corff cyfrifol yn ymateb?	16
- Beth sy'n digwydd i'r datganiad achos?	16
- Tynnu hawliadau'n ôl	16

4 Mynd i'r gwrandawriad

- Pryd byddwch yn rhoi gwybod i mi beth yw dyddiad y gwrandawriad?	17
- Ble fydd fy ngwrandawriad yn cael ei gynnal?	17
- Faint o'r gloch fydd fy ngwrandawriad yn dechrau a pha mor hir fydd e?	17
- Pwy fydd yn clywed fy hawliad?	17
- Oes rhaid i mi ddod i'r gwrandawriad?	18
- Pwy all ddod i'r gwrandawriad, ar wahân i'r person sy'n gwneud cais?	18

- Pwy all ddod i'r gwrandawriad gyda'r awdurdod lleol?	19
- Pa dreuliau allaf i eu hawlio?	19
5 Penderfyniad y Tribiwnlys	
- Pwy fyddaf yn gwybod penderfyniad y Tribiwnlys?	20
- A fyddwch yn cadarnhau bod gwahaniaethu wedi digwydd?	20
- Beth all y Tribiwnlys ddweud wrth y corff cyfrifol am ei wneud?	20
- Faint o amser sydd gan y corff cyfrifol i gyflawni gorchymyn?	20
- Beth os nad yw'r corff cyfrifol yn dilyn penderfyniad y Tribiwnlys?	21
- Beth allaf ei wneud os nad ydw i'n hapus am eich penderfyniad?	21

1. Penderfynu a ddyliid gwneud hawliad

Beth yw anabledd?

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi bod gan berson anabledd os:

- oes ganddo nam corfforol neu feddyliol; a
- bod y nam hwnnw'n cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar allu'r person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

Caiff cyflyrau cyffredin, neu gyflyrau sy'n rhai dros dro (fel clefyd y gwair neu dorasgwrn) eu heithrio o'r diffiniad. Ni fyddai gwisgo sbectol yn cyfrif fel anabledd os mai dyna'r unig anhawster yr oedd person yn ei wynebu. Byddai gan berson â sbectol anabledd pe bai'n cael anhawster mawr cyflawni tasgau bob dydd, hyd yn oed wrth wisgo sbectol.

Mae bod yn gaeth i sylweddau wedi'i eithrio o'r diffiniad.

Pa agweddau ar addysg y mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ymdrin â nhw?

Rhaid i ysgolion beidio â gwahaniaethu yn erbyn, aflonyddu nac erlid person ar sail anabledd.

Mae'n anghyfreithlon i ysgolion anffafrio neu neilltuo disgyblion oherwydd eu hanabledd:

- mewn trefniadau a wneir ar gyfer penderfynu ar dderbyn disgyblion;
- yn nhelerau eu cynigion derbyn;
- wrth beidio â derbyn person fel disgybl;
- mewn gwaharddiadau parhaol neu gyfnod penodol;
- mewn gwaharddiadau amser cinio;
- yn y ffordd y maent yn darparu addysg;
- yn y ffordd y maent yn rhoi mynediad at fuddion, cyfleusterau neu wasanaethau yn yr ysgol i ddisgyblion;
- wrth beidio â rhoi mynediad at fudd, cyfleuster neu wasanaeth yn yr ysgol i ddisgybl;
- wrth roi disgybl dan unrhyw anfantais o ran buddion, cyfleusterau neu wasanaethau; ac
- wrth beidio â darparu addysg i ddisgybl.

Mae'r gyfraith yn berthnasol i'r hyn sy'n digwydd yn ystod amser egwyl, amser cinio a gwersi. Mae hefyd yn cwmpasu gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r ysgol, megis clybiau ysgol, clybiau ar ôl ysgol, gweithgareddau chwaraeon, a theithiau ysgol. Mae gan yr ysgol ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol sy'n helpu i gynnwys pob myfyriwr.

Beth yw gwahaniaethu ar sail anabledd?

Mae gwahaniaethu ar sail anabledd yn digwydd pan fydd rhywun yn trin person arall yn anffafriol oherwydd anabledd.

Gall gwahaniaethu ar sail anabledd ddigwydd hefyd pan fydd rheol neu ffordd o wneud pethau yn rhoi pobl anabl dan anfantais. Os yw polisi ysgol yn ei gwneud yn anodd i ddisgybl anabl gymryd rhan mewn gweithgaredd ysgol, gall y polisi hwnnw fod yn wahaniaethol.

Beth yw'r mathau o wahaniaethu?

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn pobl sydd ag anabledd (neu sydd wedi bod ag anabledd) rhag gwahanol fathau o wahaniaethu.

Y gwahanol fathau o wahaniaethu yw:

- gwahaniaethu uniongyrchol;
- gwahaniaethu anuniongyrchol;
- gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd;
- methu â darparu addasiad rhesymol ar gyfer plentyn anabl;
- aflonyddu; ac
- erledigaeth.

Mae **gwahaniaethu uniongyrchol** yn digwydd pan fydd rhywun yn trin person arall yn anffafriol oherwydd anabledd. Mae hefyd yn wahaniaethu uniongyrchol os yw'n credu'n anghywir bod gan y person anabledd. Os yw rhywun yn trin rhywun arall yn anffafriol oherwydd ei gysylltiad â disgybl anabl, gwahaniaethu uniongyrchol yw hyn hefyd.

Mae **gwahaniaethu anuniongyrchol** yn digwydd pan fydd rheol, polisi neu arfer yn cael yr effaith o roi disgyblion ag anabledd penodol o dan anfantais o gymharu â disgyblion nad ydynt yn anabl. Rhaid i'r ysgol allu cyfiawnhau unrhyw reol, polisi neu arfer sy'n rhoi disgyblion o dan anfantais fel hyn.

Mae **gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd** yn digwydd pan fydd ysgol yn trin disgybl anabl yn anffafriol oherwydd rheswm sy'n gysylltiedig â'i anabledd. Os gall yr ysgol neu'r awdurdod lleol ddangos nad oedd yn gwybod am anabledd y disgybl, neu na fyddai wedi bod yn rhesymol disgwyl iddo wybod, nid yw'n wahaniaethu.

Mae **methiant i ddarparu addasiad rhesymol ar gyfer plentyn anabl** yn digwydd pan nad yw ysgol yn cymryd camau rhesymol i osgoi anfantais a brofir gan ddisgyblion anabl. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r ysgol gymryd camau cyn i'r disgybl fynychu'r ysgol.

Mae gan yr ysgol ddyletswydd i gymryd camau cadarnhaol i sicrhau y gall disgybl anabl gymryd rhan lawn yn y gwasanaethau addysg a'r gwasanaethau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu. Mae dyletswydd yr ysgol i wneud addasiadau rhesymol yn cynnwys darparu cymhorthion a gwasanaethau ategol. Mae'r rhain yn cynnwys

offer cyfrifiadurol arbenigol, desgiau wedi'u haddasu neu therapi lleferydd ac iaith. Cymorth neu wasanaeth ategol yw unrhyw beth sy'n rhoi cefnogaeth neu gymorth ychwanegol i berson anabl. Nid yw'n ei gwneud yn ofynnol i ysgol dynnu neu newid nodwedd ffisegol o'r ysgol.

Mae **aflonyddu sy'n gysylltiedig ag anabledd** yn digwydd pan fydd disgybl yn profi ymddygiad dieisiau, yn gysylltiedig ag anabledd, sydd â'r diben neu'r effaith o darfu ar urddas unigolyn. Gall yr ymddygiad fod yn elyniaethus tuag at y disgybl neu ei ddiraddio, ei fychanu neu ei sarhau.

Mae **erledigaeth sy'n gysylltiedig ag anabledd** yn digwydd pan fydd ysgol yn trin disgybl yn anffafriol am ei fod wedi cymryd camau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys triniaeth anffafriol i ddisgybl sy'n ystyried cymryd camau gweithredu, neu sy'n cefnogi person sy'n cymryd camau gweithredu.

Pryd y gellir cyfiawnhau gwahaniaethu?

Gall gwahaniaethu fod yn gyfreithlon os gall yr ysgol neu'r awdurdod lleol ei gyfiawnhau. I wneud hynny, rhaid iddynt ddangos bod rheswm cyfreithlon a dilys dros y driniaeth. Rhaid iddynt brofi hefyd bod eu hymateb yn deg, yn gytbwys ac yn rhesymol. Mae hyn yn berthnasol i achosion o wahaniaethu anuniongyrchol a gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd.

Beth am y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol?

Rhaid i ysgolion ac awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw disgyblion anabl yn cael eu rhoi o dan anfantais sylweddol o gymharu â disgyblion nad ydynt yn anabl. Er enghraifft, cam rhesymol fyddai newid y ffordd y mae ysgolion yn gwneud pethau fel y gall myfyrwyr anabl ymuno mewn gweithgaredd.

Nid oes rhaid i ysgolion newid adeiladau fel rhan o addasiad rhesymol. Y rheswm am hyn yw bod gan ysgolion ac awdurdodau lleol ddyletswydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i wella mynediad i adeiladau dros amser yn lle hynny.

A ellir gwahaniaethu yn erbyn plentyn heb anabledd?

Mae pobl heb anabledd yn cael eu hamddiffyn rhag mathau penodol o ymddygiad anghyfreithlon gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

- Mae **gwahaniaethu uniongyrchol ar sail cysylltiad** yn digwydd pan gaiff disgybl ei drin yn anffafriol oherwydd ei gysylltiad â pherson sydd ag anabledd.
- Mae **gwahaniaethu uniongyrchol ar sail canfyddiad** yn digwydd pan gaiff disgybl ei drin yn anffafriol oherwydd y gred anghywir bod ganddo anabledd.
- Mae **aflonyddu sy'n gysylltiedig ag anabledd** yn digwydd pan fydd disgybl yn profi ymddygiad dieisiau, yn gysylltiedig ag anabledd, sydd â'r diben neu'r

effaith o darfu ar urddas unigolyn. Gall yr ymddygiad fod yn elyniaethus tuag at y disgybl neu ei ddiraddio, ei fychanu neu ei sarhau.

- Mae **erledigaeth sy'n gysylltiedig ag anabledd** yn digwydd pan fydd ysgol yn trin disgybl yn anffafriol am ei fod wedi cymryd camau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys triniaeth anffafriol i ddisgybl sy'n ystyried cymryd camau gweithredu, neu sy'n cefnogi person sy'n cymryd camau gweithredu.

Pa hawliadau y gall y Tribiwnlys ddelio â nhw?

Mae'r Tribiwnlys yn ymdrin â'r rhan fwyaf o hawliadau gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth sy'n gysylltiedig ag anabledd yn erbyn ysgolion yng Nghymru. Ni allwn ddelio â hawliadau ynghylch:

- penderfyniadau derbyn ysgolion a gynhelir; a
- gwaharddiadau parhaol o ysgolion a gynhelir.

Mae ysgol a gynhelir yn ysgol y mae awdurdod lleol yn gofalu amdani ac yn talu amdani.

Mae paneli apêl derbyn, a phaneli apêl gwaharddiadau yn clywed achosion sy'n ymwneud â'r achosion hyn.

Cael gwybodaeth am yr achos

Gallwch geisio cael gwybodaeth am eich achos gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol dan sylw. Dylent allu rhoi'r rhesymu dros eu penderfyniadau yn ysgrifenedig.

Mae gan yr Equality Advisory and Support Service lythyrau templed a allai eich helpu. Gallant gynnig cyngor diduedd ac adnoddau eraill hefyd.

Beth arall allaf ei wneud?

Gweithdrefn gwyno ysgolion

Fel arfer, y peth gorau i bawb yw ceisio datrys anghytundebau yn y ffordd fwyaf syml posibl. Mae ysgolion yn debygol o fod â gweithdrefn gwyno sy'n ymdrin â chwynion am wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth. Bydd ysgolion yn gallu dweud mwy wrthy ch am eu gweithdrefn gwyno.

Gwasanaethau datrys anghytundebau awdurdodau lleol

Rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru gael gwasanaethau datrys anghytundebau annibynnol. Gall y gwasanaethau hyn ddelio ag anghydfod mewn perthynas ag anghenion dysgu ychwanegol. Mewn rhai achosion, mae'r gwasanaeth ar gael i helpu i ddatrys anghydfodau eraill hefyd. Bydd eich awdurdod lleol yn gallu dweud mwy wrthy ch am y gwasanaeth hwn ac a yw ar gael i chi.

Gall yr ysgol a'r awdurdod lleol gytuno hefyd i ddefnyddio gwasanaeth cyfryngu neu gymodi annibynnol arall sydd gennych mewn golwg.

Hyd yn oed ar ôl i chi gyflwyno hawliad, efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi gael trafodaethau gyda'r ysgol neu'r awdurdod lleol sy'n gysylltiedig â'ch achos. Weithiau mae'n bosibl datrys anghydfodau fel hyn, neu gytuno ar rai agweddau ar eich cais cyn gwrandawriad y Tribiwnlys. Os byddwch, drwy'r trafodaethau hyn, neu drwy'r gwasanaeth datrys anghytundebau, yn dod i unrhyw gytundebau, byddai'n ddefnyddiol pe baech yn rhoi gwybod i'r Tribiwnlys.

Pa gymorth a allaf ei gael?

Dylai'r awdurdod lleol fod wedi dweud wrthy ch am y grwpiau canlynol sy'n cynnig cyngor:

- gwasanaethau eirioli annibynnol;
- sefydliadau gwirfoddol sy'n helpu pobl ag anghenion dysgu ychwanegol;
- grwpiau rhieni;
- cefnogwyr rhieni annibynnol; a
- chynghorwyr partneriaethau rhieni.

Mae gwasanaethau eirioli annibynnol yn rhoi cyngor a chymorth arbenigol i unrhyw un sy'n defnyddio gwasanaethau datrys anghytundebau neu sy'n ystyried dod i'r Tribiwnlys. Mae'r gwasanaeth am ddim, a gallant eich cynorthwyo mewn sawl ffordd wahanol.

Efallai y bydd gennych hawl i gymorth cyfreithiol (arian cyhoeddus) i gael help i baratoi eich achos. Bydd Cymdeithas y Cyfreithwyr neu'ch canolfan cyngor ar bopeth leol yn gallu rhoi enwau cyfreithwyr sy'n cymryd rhan yn y cynllun cymorth cyfreithiol ac sydd â phrofiad o'r materion hyn.

Beth all y Tribiwnlys ei wneud i unioni pethau?

Gall y Tribiwnlys orchymyn darparwyr addysg i weithredu a gwneud iawn am unrhyw gyfleoedd y mae eich plentyn wedi'u colli. Gall hefyd helpu i atal gwahaniaethu yn erbyn disgyblion anabl yn y dyfodol.

Gallai enghreifftiau gynnwys:

- hyfforddiant i staff a llywodraethwyr yr ysgol;
- ysgrifennu canllawiau newydd ar gyfer staff a llywodraethwyr;
- gwneud diwygiadau i bolisiâu ysgol neu awdurdod lleol;
- darparu gwersi ychwanegol i wneud iawn am ddysgu a gollwyd;
- ymddiheuro i ddisgybl; neu
- ddarparu tripiâu neu gyfleoedd eraill i wneud iawn am weithgareddau y gallai'ch plentyn fod wedi'u colli.

Ni all y Tribiwnlys orchymyn talu iawndal ariannol.

Faint o amser y mae'r cyfan yn ei gymryd?

Mae'r broses o gyflwyno hawliad, o'r adeg y byddwn yn derbyn eich hawliad hyd at pan fyddwn yn gwneud penderfyniad terfynol, fel arfer yn cymryd rhwng tri a phum mis. Gall gymryd mwy o amser yn dibynnu ar y math o achos neu ba mor gymhleth ydyw.

Oes rhaid i mi dalu unrhyw beth?

Nid yw'r Tribiwnlys yn codi tâl am ei wasanaeth.

2. Gwneud hawliad

Terfynau amser

Mae terfyn amser o chwe mis ar gyfer cyflwyno hawliad i ni. Rhaid i ni dderbyn eich hawliad o fewn chwe mis i'r gwahaniaethu honedig. Os ydych yn defnyddio neu'n cael eich cyfeirio at Wasanaeth Cymodi'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol cyn i'r chwe mis ddod i ben, yna efallai y byddwn yn ymestyn y terfyn amser ar gyfer gwneud hawliad. Mae'n bwysig eich bod yn gofyn i'r Tribiwnlys am gael estyniad cyn i'r terfyn amser o chwe mis ddod i ben.

Os byddwch yn penderfynu defnyddio gwasanaeth datrys anghytundebau eich awdurdod lleol cyn i chi gyflwyno hawliad i'r Tribiwnlys, bydd gennych 3 mis ychwanegol i wneud cais. Byddai hyn yn gwneud y terfyn amser yn 9 mis o ddyddiad y gwahaniaethu honedig. Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrthym eich bod wedi defnyddio'r gwasanaeth datrys anghytundebau os byddwch yn gwneud cais yn ystod y cyfnod ymestyn hwn o 3 mis.

Rhaid i'ch awdurdod lleol ddarparu gwybodaeth am sut i gael mynediad i'w wasanaeth datrys anghytundebau annibynnol.

Pwy all wneud hawliad?

Y rhai sy'n gymwys i wneud hawliad yw:

- Plant
- Rhieni
- Person sydd â chyfrifoldeb rhiant neu ofal am y plentyn o fewn diffiniad Deddf Addysg 1996.

Gall cyfeillion achos gyflwyno hawliadau ar ran plentyn hefyd. Rhaid i gyfeillion achos gyflwyno ffurflen datganiad. Mae canllawiau am rôl cyfaill achos a chopïau o'r holl ganllawiau a ffurflenni ar gael ar ein gwefan.

Sut ydw i'n gwneud hawliad?

I wneud hawliad, rhaid i chi lenwi ac anfon cais hawlio i'r Tribiwnlys. Gallwch anfon ceisiadau atom drwy'r post neu drwy e-bost. Mae'r ffurflen ar gael [ar ein gwefan](#) neu fel copi print ar gais.

Rhaid llofnodi eich cais hawlio. Os byddwch yn anfon cais drwy e-bost, rhaid iddo gynnwys eich llofnod electronig. Os yw'ch cynrychiolydd yn gwneud cais ar eich rhan, rhaid iddo ddefnyddio ei lofnod electronig. Fel arall, gallwch argraffu, llofnodi, sganio ac yna anfon copi drwy e-bost.

Oes rhaid i mi anfon y cais hawlio fy hun?

Na, ond rhaid i'r person sy'n hawlio lofnodi'r cais hawlio. Mae hyn yn golygu y gallwch gael help i baratoi ac anfon eich cais, ond rhaid i chi ei lofnodi eich hun. Os oes gennych gynrychiolydd, gall lofnodi os ydych wedi rhoi caniatâd iddo.

Byddwch yn ymwybodol na fyddwn yn anfon gwybodaeth am yr hawliad at neb arall heblaw y person a ddewisir ar y cais hawlio. Bydd angen i chi dicio un o'r blychau ar y cais i ddweud wrthym pwy rydych yn ei ddewis i dderbyn gwybodaeth am yr hawliad. Os na fyddwch yn ticio blwch, byddwn yn anfon y wybodaeth at y person cyntaf a enwir (y person sy'n gwneud yr hawliad).

Os oes gennych gynrychiolydd, a'ch bod am iddo dderbyn yr holl lythyrau a phapurau ar gyfer yr hawliad, dylech roi ei enw a'i gyfeiriad. Os byddwch yn dewis eich cynrychiolydd, bydd yn derbyn holl bapurau'r Tribiwnlys, ac ni fyddwch yn derbyn unrhyw beth cyn y gwrandawriad; dim ond y penderfyniad terfynol y byddem yn ei anfon atoch ar ôl ei gyhoeddi. Cyfrifoldeb eich cynrychiolydd fydd rhannu papurau gyda chi.

Rhaid i chi roi gwybod i ni yn ysgrifenedig os byddwch yn penderfynu rhoi'r gorau i ddefnyddio eich cynrychiolydd, neu os bydd ei fanylion yn newid.

Yn erbyn pwy mae'r hawliad?

Mae eich hawliad yn erbyn y Corff Cyfrifol. Gall hwn amrywio yn dibynnu ar y math o achos. Fel arfer, naill ai corff llywodraethu'r ysgol, awdurdod lleol neu berchennog yr ysgol dan sylw yw hwn. Y Corff Cyfrifol yw'r sefydliad sy'n gyfrifol am yr ysgol.

Nid oes angen i chi ddweud wrthym pwy yw'r Corff Cyfrifol, dim ond enw a chyfeiriad yr ysgol, neu'r man addysg lle digwyddodd y gwahaniaethu honedig. Os yw'n ysgol a gynhelir (y mae'r awdurdod lleol yn gofalu amdani) mae angen i chi roi enw'r awdurdod lleol wrthym hefyd. Ni allwch enwi person unigol, fel y pennaeth, fel y Corff Cyfrifol.

Pa wybodaeth y mae angen i mi ei rhoi i chi?

Mae ein ffurflen gais yn gofyn am yr wybodaeth angenrheidiol, ond bydd y rhestrau gwirio isod yn dweud wrthy ch ba wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys.

<p>Enw a chyfeiriad y person sy'n gwneud yr hawliad.</p> <p>Os nad chi yw'r plentyn neu'r person ifanc, rhaid i chi ddatgan eich perthynas neu gysylltiad ag ef.</p> <p>Os yw ar gael, dylech gynnwys rhif ffôn a chyfeiriad e-bost.</p>	
<p>Enw a dyddiad geni'r plentyn neu'r person ifanc.</p>	
<p>Disgrifiad o anabledd y plentyn neu'r person ifanc.</p>	
<p>Disgrifiad o unrhyw ofynion cyfathrebu a dewisiadau'r plentyn neu'r person ifanc.</p>	
<p>(Os yw'r hawliad yn ymwneud â phlentyn)</p> <p>Enwau a chyfeiriadau pawb sydd:</p> <p style="padding-left: 40px;">â chyfrifoldeb riant dros y plentyn; neu yn rhannu cyfrifoldeb riant dros y plentyn; neu yn gofalu am y plentyn.</p> <p>Os na allwch ddarparu'r manylion hyn, rhaid i chi egluro pam.</p>	
<p>(Os yw'r hawliad yn ymwneud â phlentyn)</p> <p>Cadarnhad ysgrifenedig eich bod wedi dweud wrth bawb sydd:</p> <p style="padding-left: 40px;">â chyfrifoldeb riant dros y plentyn, neu; yn rhannu cyfrifoldeb riant dros y plentyn; neu yn gofalu am y plentyn</p> <p>eich bod yn gwneud hawliad.</p> <p>Os nad ydych wedi dweud wrth y bobl hyn eich bod yn gwneud hawliad, rhowch resymau pam nad ydych wedi dweud wrthynt.</p>	
<p>Enw a chyfeiriad unrhyw gynrychiolydd neu gyfaill achos a benodwyd gan y person sy'n gwneud yr hawliad.</p> <p>Os yw ar gael, dylech gynnwys ei rif ffôn a'i gyfeiriad e-bost.</p>	

<p>Cyfeiriad lle dylid anfon hysbysiadau a dogfennau ar gyfer y sawl sy'n gwneud yr hawliad. Eich cyfeiriad chi, neu eich cynrychiolydd, yw hwn fel arfer.</p> <p>Rydym yn ymdrin â'r rhan fwyaf o achosion ar gyfrifiadur. Os ydych yn hapus i ni gysylltu â chi neu anfon dogfennau drwy e-bost, dylech gynnwys eich cyfeiriad e-bost hefyd.</p>	
<p>Enw a chyfeiriad yr ysgol neu'r awdurdod lleol a wnaeth y penderfyniad sy'n destun anghydfod.</p> <p>Os mai ysgol a gynhelir wnaeth y penderfyniad, rhaid ichi ddatgan pa awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol.</p> <p>Mae ysgol a gynhelir yn ysgol y mae awdurdod lleol yn gofalu amdani ac yn talu amdani. Cyfeirir atynt yn aml fel ysgolion y wladwriaeth.</p>	
<p>Manylion y penderfyniad y mae eich hawliad yn ymwneud ag ef.</p> <p>Dyma'r penderfyniad sydd, yn eich barn chi, yn gwahaniaethu yn erbyn y plentyn neu'r person ifanc.</p> <p>Rhaid i chi hefyd nodi'r dyddiad neu'r dyddiadau y gwnaed y penderfyniad.</p>	
<p>Y rheswm dros wneud yr hawliad.</p> <p>Rhaid i chi egluro pam rydych chi'n meddwl ei fod yn wahaniaethol. Mae'n helpu i egluro sut mae'r penderfyniad yn effeithio ar y plentyn neu'r person ifanc. Gall cymharu eu sefyllfa â disgyblion eraill eich cynorthwyo.</p>	
<p>Y canlyniad yr hoffech ei weld.</p> <p>Nodwch beth yr hoffech ei weld yn digwydd os yw'r Tribiwnlys yn cytuno â'ch hawliad.</p>	
<p>Y camau, os o gwbl, sydd wedi'u cymryd i ddatrys yr anghydfod.</p> <p>Gall hyn fod yn drafodaethau gyda'r ysgol, defnyddio gwasanaeth datrys anghydfodau awdurdod lleol, neu unrhyw ffordd arall rydych chi wedi ceisio datrys y broblem.</p>	
<p>Llofnod y person sy'n gwneud yr hawliad.</p>	

Pa ddogfennau y dylwn i eu hanfon gyda'r cais hawliad?

Os oes gennych dystiolaeth o ddiagnosis meddygol neu ddiagnosis proffesiynol arall sy'n ymwneud ag anabledd y disgybl, anfonwch hwn gyda'ch cais hawliad.

Gofalwch fod unrhyw ddogfennau a anfonwch atom yn llungopiâu o'r gwreiddiol.

Gwybodaeth arall

Os ydych chi'n cyflwyno cais apêl yn erbyn awdurdod lleol hefyd, gallwch wneud cais i'r hawliad a'r apêl gael eu clywed gyda'i gilydd yn yr un gwrandawriad.

3. Ar ôl i ni dderbyn eich hawliad

Beth sy'n digwydd nesaf?

Byddwn yn cofrestru eich apêl ac yn anfon copi i'r corff cyfrifol. Byddwn yn ysgrifennu atoch os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom cyn y gallwn gofrestru eich apêl.

Unwaith i ni gofrestru eich hawliad, byddwn yn dweud wrthyich am anfon eich datganiad achos a'ch ffurflen bresenoldeb. Bydd gennych 30 diwrnod gwaith i wneud hyn.

Beth yw datganiad achos?

Eich datganiad achos yw'r wybodaeth a'r dystiolaeth rydych chi am i ni edrych arni fel rhan o'ch hawliad. Gallwch ddarparu safbwyntiau pobl, dogfennau pwysig, llythyrau, ac unrhyw beth arall sy'n cefnogi'ch achos yn eich tyb chi. Gweler ein llyfryn arweiniad *Canllaw ar baratoi datganiad achos ar gyfer hawliad (TAC8)* [ar ein gwefan](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Oes rhaid i mi anfon datganiad achos?

Oes. Yn y man lleiaf, rhaid i chi anfon y wybodaeth ganlynol atom fel rhan o'ch datganiad achos.

- barn y plentyn neu'r person ifanc ar y materion dan sylw yn yr apêl, neu
- y rheswm pam nad ydych yn darparu barn y plentyn neu'r person ifanc.

Os yw'r apêl yn ymwneud â phlentyn:

- barn rhieni'r plentyn ar y materion dan sylw yn yr apêl, neu
- y rheswm pam nad ydych yn darparu barn y rhieni.

Un o reolau Rheoliadau'r Tribiwnlys yw eich bod yn darparu'r safbwyntiau hyn. Bydd panel y tribiwnlys yn disgwyl i chi gynnwys y wybodaeth hon yn eich datganiad achos, oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny.

Beth fydd y corff cyfrifol yn ei wneud ynghylch fy apêl?

Byddwn yn anfon copi o'ch apêl a'ch datganiad achos i'r corff cyfrifol. Rhaid iddo baratoi ymateb a'i anfon i'r tribiwnlys o fewn 4 wythnos o ddyddiad derbyn eich datganiad achos. Yr ymateb hwn fydd datganiad achos yr awdurdod neu'r sefydliad.

Beth os nad yw'r corff cyfrifol yn ymateb?

Os na fydd y corff cyfrifol yn anfon ymateb yn yr amser a ganiateir, bydd y Tribiwnlys yn ystyried pa gamau y dylai eu cymryd. Gall hyn gynnwys gwrthod caniatáu iddo gymryd unrhyw ran yn yr achos.

Beth sy'n digwydd i'r datganiad achos?

Unwaith y bydd y dyddiad cau ar gyfer anfon datganiadau achos atom wedi mynd heibio, byddwn yn anfon copi o'r holl bapurau sydd wedi dod i law atoch chi a'r corff cyfrifol.

Os bydd yr achos yn mynd i wrandawriad, bydd panel y tribiwnlys yn ystyried y datganiadau achos ac unrhyw ddogfennau a ddarperir gennych chi a'r corff cyfrifol ymlaen llaw. Yna bydd yn ystyried y dystiolaeth sy'n cael ei chlywed ar y diwrnod, ac yn gofyn cwestiynau, i'w helpu i wneud penderfyniad am eich achos.

Tynnu hawliadau'n ôl

Os byddwch yn penderfynu nad ydych am barhau â'r hawliad mwyach, yna gallwch ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg yn y broses. I dynnu hawliad yn ôl, dywedwch wrthym yn ysgrifenedig, drwy e-bost neu mewn llythyr. Gallwch hefyd lenwi a dychwelyd ein ffurflen tynnu'n ôl.

4. Mynd i'r gwrandawriad

Pryd byddwch yn rhoi gwybod i mi beth yw dyddiad y gwrandawriad?

Byddwn yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi pa ddyddiad ac amser y cynhelir y gwrandawriad cyn gynted ag y bydd wedi'i drefnu.

Ble fydd fy ngwrandawriad yn cael ei gynnal?

Bydd eich gwrandawriad naill ai'n cael ei gynnal drwy alwad fideo neu wyneb yn wyneb.

Os cynhelir eich gwrandawriad drwy alwad fideo, byddwn yn rhoi gwybod i chi pan fyddwn yn cadarnhau'r dyddiad. Byddwn hefyd yn darparu cyfarwyddiadau ymuno, ac awgrymiadau i sicrhau bod y cyfarfod yn digwydd heb drafferthion.

Rydym yn cynnal gwrandawriadau wyneb yn wyneb o fewn pellter teithio o awr o'ch cartref. Cânt eu cynnal mewn adeiladau cyhoeddus, fel gwestai, gan amlaf. Bydd y cyfarfod ei hun mewn ystafell breifat.

Rydym yn sicrhau bod pob lleoliad yn gwbl hygyrch i bobl sy'n defnyddio cymhorthion symudedd. Rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw anghenion penodol.

Faint o'r gloch fydd fy ngwrandawriad yn dechrau a pha mor hir fydd e?

Mae gwrandawriadau'n dechrau am 10am fel rheol. Gall gwrandawriad gymryd drwy'r dydd ond maen nhw wedi gorffen erbyn 5pm gan amlaf.

Os yw'r gwrandawriad yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb, dylech geisio cyrraedd o leiaf 30 munud cyn iddo ddechrau.

Pwy fydd yn clywed fy hawliad?

Bydd panel o 3 aelod o'r Tribiwnlys yn clywed eich apêl.

Cadeirydd y Tribiwnlys, sef cyfreithiwr, fydd yn arwain y gwrandawriad. Gelwir y ddau aelod arall yn Aelodau Lleyg. Mae ganddynt wybodaeth a phrofiad arbenigol o blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Oes rhaid i mi ddod i'r gwrandawriad?

Nid oes rhaid i chi ddod i'r gwrandawriad, ond bydd yn ddefnyddiol os ydych yno. Bydd y panel am glywed yr hyn sydd gennych i'w ddweud am eich achos ac efallai y bydd ganddynt gwestiynau i chi. Efallai y byddwch chi am ofyn cwestiynau hefyd.

Os byddwch yn penderfynu peidio â dod i'r gwrandawriad neu'n anfon cynrychiolydd, cewch gyfle i roi eich barn ar ôl y dyddiad cau ar gyfer y datganiad achos. Yn yr achos hwn, dylid cyflwyno sylwadau ychwanegol i'r Tribiwnlys o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y gwrandawriad. Fel hyn, gall eich sylwadau ar ddatganiad achos yr ymatebydd gael eu clywed yn y gwrandawriad.

Pwy all ddod i'r gwrandawriad, ar wahân i'r person sy'n gwneud cais?

Y plentyn neu'r person ifanc

Gall y plentyn neu'r person ifanc fynychu a rhoi tystiolaeth.

Mae'n debygol mai dim ond am ran o'r gwrandawriad y byddai'r panel am siarad â phlentyn. Rhaid i chi drefnu i rywun ofalu am blant os nad ydynt eisiau bod yno ar gyfer y gwrandawriad llawn. Ni fydd staff y tribiwnlys yn gallu gofalu am blant mewn gwrandawriadau a gynhelir wyneb yn wyneb. Sylwch hefyd, efallai na fydd lle addas yn yr adeilad i rywun ofalu am blentyn.

Eich cynrychiolydd

Gallwch wahodd rhywun i'ch cynrychioli, p'un a ydych yn penderfynu dod ai peidio. Nid oes angen cymhwyster cyfreithiol ar y person hwnnw.

Rhieni'r plentyn

Gall rhiant neu berson sydd â chyfrifoldeb rhiant yn achos plentyn ddod i'r gwrandawriad, hyd yn oed os nad dyma'r person sy'n gwneud yr hawliad.

Sylwedydd

Gallwch ddod ag un person i fod yn gefn i chi. Bydd yn gallu dod i mewn i'r gwrandawriad ond ni fydd yn gallu cymryd rhan na chymryd nodiadau.

Tystion

Gallwch ddod â hyd at ddau dyst i'r gwrandawriad.

Gall dewis pwy i ddod gyda chi fel tyst fod yn anodd. Dylai'r tystion a ddewiswch allu trafod prif faterion eich hawliad sy'n ymwneud â'r plentyn neu'r person ifanc. Rhaid i

dystion ddisgwyl ateb cwestiynau am eu tystiolaeth. Bydd angen gwybodaeth dda arnynt am y ffeithiau a'r rhesymu y tu ôl i'r wybodaeth a roddant.

Bydd angen i unrhyw dystion arbenigol roi barn broffesiynol gyda'u tystiolaeth, yn hytrach na dim ond cefnogi eich achos. Gall tystiolaeth arbenigol sy'n ymddangos yn unochrog golli hygredded.

Eiriolwr

Gallwch ddod ag eiriolwr i gyfleu barn a dymuniadau plentyn, neu eich atgoffa o'ch hawliau.

Pwy all ddod i'r gwrandawriad gyda'r awdurdod lleol?

Gall yr awdurdod lleol ddod â chynrychiolydd, hyd yn oed os nad oes ganddo gymhwyster cyfreithiol. Gall alw hyd at ddau dyst i'r gwrandawriad, a dod â sylwedydd ac eiriolwr hefyd. Byddwn yn ysgrifennu atoch cyn y gwrandawriad i gadarnhau pwy sy'n mynychu'r gwrandawriad.

Pa dreuliau allaf i eu hawlio?

Gallwch chi a'ch tystion hawlio costau teithio i ddod i'r gwrandawriad. Os ydych yn dod â ffrind neu berthynas i ofalu am eich plentyn, byddwch yn gallu hawlio ei gostau teithio hefyd.

Dylech ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus lle y bo'n bosibl (teithio ar fws neu reilffordd dosbarth safonol). Os ydych yn teithio mewn car, gallwch hawlio swm penodol ar gyfer milltiroedd. Ni allwn dalu am barcio a thollau.

Ni fyddwn yn talu costau tacsï oni bai nad oes trafndiaeth gyhoeddus ar gael, neu os oes gennych anghenion penodol. Rhaid i chi ddweud wrthym cyn defnyddio tacsï os ydych am hawlio costau teithio. Bydd angen i ni awdurdodi unrhyw hawliadau am gostau tacsï cyn i chi deithio.

Gall eich tystion hawlio swm penodol am golli enillion.

5. Penderfyniad y Tribiwnlys

Pryd fyddaf yn gwybod penderfyniad y Tribiwnlys?

Byddwn yn anfon y penderfyniad a'r rhesymau atoch drwy'r post, o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl y gwrandawriad fel arfer. Byddwn yn anfon y penderfyniad atoch chi, eich cynrychiolydd (os oes gennych un) a'r corff cyfrifol.

A fyddwch yn cadarnhau bod gwahaniaethu wedi digwydd?

Os penderfynwn fod gwahaniaethu anghyfreithlon wedi digwydd, byddwn yn dweud hynny yn ein penderfyniad.

Beth all y Tribiwnlys ddweud wrth y corff cyfrifol am ei wneud?

Gallwn orchymyn i'r corff cyfrifol wneud unrhyw beth rhesymol i unioni'r gwahaniaethu. Nid yw'r gyfraith yn caniatáu inni orchymyn iawndal ariannol.

Gallwn orchymyn camau gweithredu a fydd yn helpu i wneud iawn am unrhyw gyfleoedd y mae eich plentyn wedi'u colli, neu atal gwahaniaethu yn y dyfodol.

Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- hyfforddi staff yr ysgol;
- llunio canllawiau newydd ar gyfer staff;
- newidiadau i bolisiâu'r ysgol;
- darparu gwersi ychwanegol i wneud iawn am ddysgu a gollwyd;
- newid lleoliad gwersi neu weithgareddau (ond heb newid safleoedd ffisegol);
- ymddiheuriad ysgrifenedig i'ch plentyn; a
- thripiâu neu gyfleoedd eraill i wneud iawn am weithgareddau y gallai'ch plentyn fod wedi'u colli.

Faint o amser sydd gan y corff cyfrifol i gyflawni gorchymyn?

Byddwn yn dweud wrth y corff cyfrifol am gyflawni'r gorchymyn o fewn amser penodol. Rhaid iddo wneud hyn yn ôl y gyfraith. Os na, nid oes gan y tribiwnlys unrhyw bwerau gorfodi. Mae camau eraill y gallwch eu cymryd i orfodi gorchymyn y tribiwnlys os nad yw'r corff cyfrifol yn cydymffurfio.

Beth os nad yw'r corff cyfrifol yn dilyn y penderfyniad?

Os nad yw'r corff cyfrifol yn cadw at y gorchymyn o fewn yr amser a ddywedwn, efallai y bydd yn rhaid i chi wneud cais i'r Uchel Lys i'w orfodi.

Fel arall, gallwch gwyno i'r Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus:

Y Gangen Anghenion Dysgu Ychwanegol
Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

additionallearningneedsbranch@gov.wales

Gallwch hefyd wneud cwyn i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

www.ombwdsmon.cymru

0300 790 0203

Beth allaf ei wneud os nad ydw i'n hapus am eich penderfyniad?

Os ydych yn credu bod problem dechnegol gyda'r penderfyniad, neu sut y bu i ni wneud y penderfyniad, gallwch ofyn i ni ei adolygu. Ni fyddwn yn adolygu ein penderfyniad am nad ydych yn hapus gydag ef. Rhaid i ni dderbyn eich cais ysgrifenedig i'w adolygu o fewn 28 diwrnod i ddyddiad cyhoeddi'r penderfyniad. Gall y Tribiwnlys wrthod derbyn cais i adolygu, neu ofyn am farn pob parti i wneud penderfyniad pellach.

Os credwch fod y penderfyniad yn anghywir ar bwynt cyfreithiol gallwch apelio i'r Uwch Dribiwnlys (Siambwr Apeliadau Gweinyddol). I wneud hyn, yn gyntaf rhaid i chi wneud cais i ni am ganiatâd i apelio. Rhaid i ni dderbyn y cais am ganiatâd i apelio dim hwyrach na 28 diwrnod o'r dyddiad ar y llythyr a anfonwyd atoch gyda'r penderfyniad. Os na fyddwn yn rhoi caniatâd, gallwch ddal i wneud cais i'r Uwch Dribiwnlys am ganiatâd, ond ni fydd yn ystyried y cais oni bai eich bod yn gwneud cais i Dribiwnlys Addysg Cymru am ganiatâd yn gyntaf. Byddwch angen caniatâd i apelio naill ai gan Dribiwnlys Addysg Cymru neu'r Uwch Dribiwnlys cyn y gallwch gyflwyno'r apêl.